


Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Elizabeth Jones (Llansannan) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd fel ag y mae Kitty Parry (Llanefydd) yn yr Inffirmari. Bu Dylan Roberts (Henllan) yn Ysbyty Glan Clwyd dros nos hefyd – gobeithio y bydd yntau yn well rwan wedi rhai misoedd o fod ddim yn dda. Balch ydym hefyd fod Beryl Jones (Nantglyn) wedi cael dod adref o'r ysbyty. Anfonwn ein cofion ati hithau, a gweddiwn y bydd hi a phob un o'r cleifion yn cryfhau dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.
- Cafodd Owen Roberts (Henllan) ei symud i Gartref Maes Elwy, Trefnant yn ystod yr wythnos, ond er ei fod yn cael gofal da, nid yw ei iechyd cystal y dyddiau hyn. Parhawn i'w gofio ef a'r teulu yn ein gweddiâu gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu.
- Parhawn i gofio hefyd am ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mr Selwyn Davies, Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd.

Y Beibl Canllaw



Ar Awst 6ed, bydd 'Y Beibl Canllaw' yn cael ei gyhoeddi. Nid llyfr am y Beibl yw hwn, ond y Beibl ei hun gyda 'chanllawiau' syml sy'n esbonio'r ystyr ac yn egluro'r neges mewn arddull gyfoes. Mae'r 'canllawiau' yn cynnwys nodiadau i egluro adnodau sy'n ymddangos yn dywyll ar yr olwg gyntaf, cyfeiriadau ar ymyl y ddalen at adnodau eraill sy'n berthnasol, cyflwyniadau i themâu a llyfrau'r Beibl . . . lluniau, mynegai, geirfa, a llawer mwy. Pris y llyfr yw £25 ond cynigir prisiau gostyngol i rai sydd am archebu mwy nag un copi. Os am fanteisio ar y gostyngiad (fydd o leiaf £5), rhowch eich archeb i Mair erbyn Gorffennaf 19eg, os gwelwch yn dda.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 10:21-24 (BCND tud.77 / BCN: tud.70)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5^{ed} Gorffennaf 2015 (BCND tud.232 / BCN: tud.212)

Darlleniad y Dydd

Barnwyr 10:1-7

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Un o'r profiadau ysgytwol rheini i mi oedd gwranddo ar anerchiad yr Arlywydd Obama ar achlysur gwasanaeth coffa'r naw a gafodd eu llofruddio mewn eglwys yn Charleston, De Carolina ym mis Mehefin. Roedd yr hyn oedd ganddo i'w ddweud yn drawiadol ynddo'i hun ond roedd grym y neges gymaint yn fwy wrth i fwy eto gael eu lladd yn Twnisia, Kuwait a Ffrainc. Thema waelodol ei anerchiad oedd Gras Duw, a thua diwedd ei anerchiad fe gychwynodd ganu "Rhyfeddol Ras" a hynny'n ddigyfeiliant cyn i'r cerddorion, a'r gynulleidfa luosog, ymuno ag o. Wedi'r canu, dyma restru pob un o'r rhai a lofruddiwyd gan gyhoeddi eu bod, pob un, wedi adnabod a derbyn y Gras yma'n rhodd gan Dduw. "Rhad rodd Duw yw gras" meddai gan adleisio'r hyn sydd yn y Beibl – "Rhodd Duw ydyw" (Effesiaid 2).

Ei bwynt mawr oedd hyn: gras Duw ddaru roi'r cymhelliad yng nghalonau'r Cristnogion hyn yn eglwys hanesyddol Emanuel, Charleston i groesawu'r dieithriad i'r astudiaeth Feibl a oedd yn cael ei chynnal ganddynt y noson honno. Gras Duw yn unig yng nghalon perthnasau'r rhai fu farw ac aelodau eraill o eglwys Dduw yn Charleston sy'n eu galluogi rwan i faddau i'r llofrudd ac i weddio drosto mewn maddeuant. Pa mor aml yr ydan ni wedi canu "Gras a chariad megis dilyw yn ymdeiwallt yma 'nghyd – a chyfiawnder pur a heddwch yn cusannu euog fydd"? Dyma enghraifft ryfeddol o hyn ar waith. Pa rym arall yn y byd sy'n galluogi pobl i faddau fel hyn?

A dewrder Obama – yn anad yr un arweinydd arall hyd y gwelaf i – oedd cyhoeddi heb flewyn ar ei dafod mai profiad o'r gras rhyfeddol yma sydd ei angen yn fwy na dim ar ein byd terfysgol ni oherwydd mai gras Duw yn unig sy'n abl i atal dylanwad y casineb sy'n nod i bob terfysgaeth. Gras Duw sy'n mynd i newid pethau go iawn oherwydd y mae wedi fy newid i! Dipyn o honiad gan wleidydd pwerus! Cewch weld a gwranddo ar ei araith gyfan ar 'youtube' a gobeithio y caiff ei neges wrandawriad gan arweinyddion a disgyblion holl grefyddau'r byd sy'n honni mai heddwch a brawdgarwch yw eu nod. Caiff yr eglwys ei beirniadu'n hallt ar adegau am roi eu barn ar bynciau gwleidyddol, wel dyma enghraifft amserol o'r gwrthwyneb – gwleidydd yn datgan rhagoriaeth gras! Rhyfedd o fydd!

Cawsom ddiwrnod arbennig iawn o law yr Arglwydd y Sul diwethaf a diolch i bawb am hwyluso'r trefniadau ac am y croeso a gawsom gan Nerys a'i chydweithwyr ym Myd Mari Jones, ac i'n cyfeillion yng Ngholeg y Bala am ein harwain mewn moliant a'n dysgu o'r Gair. Edrychwn ymlaen at gael amser i foli Duw gyda'n gilydd eto heddiw, canmol ein Harglwydd Iesu a phrofi nerth ei anorchfygol Ras!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 5^{ed}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Rhodri yn pregethu. Edrychwn ymlaen hefyd i gael cwmni Gwilym Tudur fydd hefo ni ar brofiad gwaith eto yr wythnos hon, a hefyd i groesawu i'r oedfa gynrychiolwyr o'r gwahanol Synodau yn yr India, y rhan fwyaf ohonynt yn weinidogion yno. Croeso i bawb.

Mawrth – 7^{fed}

- **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuenctid 15+) yn Festri Groes am 7.30. (Gall unrhyw un sydd angen lifft o Lansannan i Groes gysylltu hefo Rhodri.)

Mercher – 8^{fed}

- **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00.

lau – 9^{fed}

- **Cwpan Pêl-Droed 5 bob ochr CIC:** twrnament i aelodau CIC ar draws Gogledd Cymru, blynnyddoedd 7-9 am 5.30 yng Nghanolfan Tŷ Nant, Abererch, ger Pwllheli. Bydd barbeciw a siaradwr gwadd yn rhan o'r noson. Os oes unrhyw un arall â diddordeb, cysylltwch â Rhodri neu Huw Tan y Graig HEDDIW!

Sadwrn – 11^{eg}

- Mae **Tearfund Cymru** yn ein gwahodd i '**...nid wrth ein tlodi y byddwch yn ein nabod...**' yn Eglwys Unedig Gloddaeth, Stryd y Capel, Llandudno LL30 2YF o 3.00-5.00 i ddysgu mwy am y gwaith sy'n digwydd yn Ethiopia. Bydd Keith Etherington, cynrychiolydd i Tearfund sy'n byw yn Ethiopia, yn sôn wrthym am y mudiad sydd eisoes wedi gweld 1.2 miliwn o bobl yn eu codi eu hunain allan o dlodi. *Ond mae cymaint mwy i'w wneud...* Bydd te, coffi a lluniaeth ysgafn ar gael. Ni chodir tâl mynediad ond bydd unrhyw roddion yn mynd at waith Grwpiau Hunan-gymorth Tearfund yn Ethiopia. Croeso i bawb! [Gofynnwyd am enwau erbyn Gorffennaf 1af, felly os am fynd yno, ffoniwch (01437) 721139 neu ebostiwch hywel.meredydd@tearfund.org cyn mynd.]

Sul nesaf – 12^{fed}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 5^{ed}

Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf – 12^{fed}

Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

Sul yma – 5^{ed}

Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn dilyn oedfa'r bore, bydd pwyllgor i drefnu rhaglen y Gymdeithas am 2015-16. Croeso i bawb.

Sul nesaf – 12^{fed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Meurig a Lisa yn cyflwyno Elis i gael ei fedyddio. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 5^{ed}

Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf – 12^{fed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma – 5^{ed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn **Saron** (SYLWCH AR Y NEWID LLEOLIAD). Yn ystod yr oedfa bydd Casi Blodwen, merch fach Non a Shane yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf – 12^{fed}

Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID LLEOLIAD). Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 5^{ed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Yn ystod yr oedfa bydd Gethin Wynne, mab bach Iwan a Menna yn cael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Sul nesaf – 12^{fed}

Bydd Dr Andras Iago yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 5^{ed}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Sul nesaf – 12^{fed}

Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghewn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Berain am 10.00.